y Dinesydd

MEDI 1994 | PAPUR BRO DINAS CAERDYDD | RHIF 204

# YSGOL NEWYDD Y DDINAS

Ym mis Medi eleni fe fyddwn yn gadael ein adeilad ar safle Howardian am ein hysgol newydd ar Heol yr Eglwys Newydd. Erbyn hynny byddwn yn agor y drysau i hanner cant o blant, un dosbarth derbyn ac un dosbarth B1.1.

Bydd pedair aelod o staff gennym, Mrs Jane Buckland ein cynorthwywraig, Mrs Sian Rolph, Miss Catrin Ladd-Lewis a Miss Susanne Smith, y brifathrawes.

Fe ddaw'r plant o sawl ardal yn y ddinas - Pen-y-lan, Y Rhath, Pentwyn, Sblot, Llanedeyrn, Cathays a Thremorfa.

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn hapus a phrysur. Buom yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, ac mae'r plant wedi ymddangos ar sawl rhaglen deledu.

Er fod y plant wrth eu bodd yn yr ysgol, maent wedi cael hwyl yn ymweld a Fferm Cwmbran, Sain Ffagan a joio'r pantomeim Nadolig a Sioe Rala Rwdins.

Prin iawn yw ein hadnoddau o hyd, ond gyda cefnogaeth brwd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon rydym wedi trefnu sawl noson lwyddiannus i godi arian. Diolch i bawb am bob cymorth.

Ysgol Mynydd Bychan fydd ein henw, ac edrychwn ymlaen at ddyfodol hapus yn ein catref newydd.

'O'r fesen, derwen a dyf'.

## DERBYN CYDNABYDDIAETH AM NAWDD I ŴYL GELLI GANDRYLL

Derbyniodd Maskreys, y cwmni gwerthu dodrefn, offer a defnyddiau ar gyfer y cartref, sydd a'i bencadlys yn 116 -120 Ffordd Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, a siopau yng Nghaerdydd, Casnewydd a Bryste, wobr o dan Gynllun Hybu Nawdd gan Fusness. Cyflwynodd y cyn Ysgrifennydd Treftadaeth, Peter Brooke, dystysgrif o gydnabyddiaeth swyddogol i'r cwmni am y nawdd o £10,000 a roddwyd eleni gan Maskreys i Ŵyl Lenyddol Gelli Gandryll.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Maskreys wedi bod yn noddi enillwyr Medal Aur Crefft Eisteddfod Genedlaethol Cymru trwy hyrwyddo eu gwaith. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu enillydd Medal Aur Crefft Eisteddfod Genedlaethol Llanelwedd 1993, sef Ann Catrin Evans, gof o Barc Glynllifon, ger Caernarfon, Gwynedd, yn arddangos ac yn gwerthu ei gwaith yn siop Maskreys yng Nghaerdydd.

Yn y llun:

Mrs Samantha Maskrey, Cyfarwyddwr, a Mr Robert J. Maskrey, Prif Weithredwr siopau Maskreys gyda (yn y canol) Peter Brooke, y cyn-Ysgrifennydd Treftadaeth.



# CYMDEITHAS CYMRODORION Y BARRI

Daeth 88ed tymor y Gymdeithas i ben yng nghyfarfod mis Mai, a da crybwyll iddo fod yn dymor llwyddiannus. Un o'r nodweddion mwyaf calonogol fu'r cyfartaledd uchel o aelodau a fu'n barod i gymryd rhan yn y gweithgareddau.

Agorwyd y tymor fis Medi gyda chyngerdd hwyliog gan blant Ysgolion Cymraeg Y Barri, a Festri Capel Annibynnol yn llawn. Yna ym mis Hydref, sgwrs ddiddorol gan Noel Williams, Gwenfo, yn dadlennu cynnwys blwch o 'drugareddau'. Daeth Alun Tegryn o Aberteifi i'n difyrru a'n diddordi ym mis Tachwedd, noson o fwynhad pur. Blas Naoligaidd fu ar ein cyfarfod yn Rhagfyr, noson o ganu a holi ac ateb. Mwynhawyd darlith gan Isglwyn Jones ym mis Ionawr ar y Cymro amryddawn o Lansadwrn, sef W Llywelyn Williams - gwleidydd, awdur, bar-gyfreithiwr. Mwynhawyd y ginio Gwyl Ddewi yng Ngwesty'r Mount Sorrel gyda sgwrs ddiddorol gan y Dr Harri Pritchard Jones yn dadansoddi tueddiadau llenyddol diweddar yng Nghymru. Menter newydd i'r Gymdeithas oedd bwrdd yn llawn planhigion yn ein cyfarfod mis Mawrth a chynghorion buddiol ar arddio gan Patrick a Carys Whelan.

Ein hymweliad a Chymdeithas Cymrodorion Caerdydd oedd un o uchafbwyntiau'r tymor. Cyfrannodd nifer ohonom yn effeithiol iawn at raglen o farddoniaeth a chanu a thema 'Y Mor', a'r cyfan wedi'i drefnu gan Ann ac Islwyn Jones.

Yn y cyfarfod olaf i gloi'r tymor, bu'n Llywydd, Elwyn Richards, yn son am ei hen sir, sef Sir Benfro, ac yn ein tywys ar hyd y glannau o Dyddewi i Aberteifi.

Fel rheol, cynhelir cyfarfodydd yn festri Capel Annibynnol Y Barri (y Tabernacl), King Square, am 7.15 o'r gloch y trydydd nos Fawrth yn y mis. Mae yma aelwyd gynnes i Gymry'r cylch. Tal aelodaeth yw £2; os am fanylion pellach, cysyllter a'r ysgrifennydd, John Williams, 76 Porth Y Castell, Y Barri. Rhif ffôn 0446 745620.

HOFRAN

## Plant Cardiff High

# YN HOFRAN



Yn ddiweddar bu difgyblion Ysgol Uwchradd Caerdydd (Cardiff High School) yn cymryd rhan yn rownd derfynol cystadleuaeth cerbyd-hofran (hovercraft). Yma, fe'i gwelir yn brysur wrthi yn gwneud newidiadau munud olaf i hovercraft a adeiladwyd ganddynt. Y tim yw Paul Veyfey, Stephen Spiteri, Jeff Morgan, Joanne Gordon, William Howse, a Phil Baker, a'r athrawon sydd yn arwain y tim yw Nigel Jones a Dave Rumbelow.

## 'AIL-GYCHWYN'

Clwb Peldroed Cynradd yr Urdd De Morgannwg
o ddydd Sadwrn, 17eg Fedi 1994
Yng Nghaeau Llandaf rhwng 10.00 - 11.00 am

Croeso i fechgyn a merched sydd rhwng 7 - 11 oed
ac yn mynychu ysgolion Cynradd Cymraeg De Morgannwg

Pris - 80c y sesiwn

Staff a chymwysterau F.A.CYMRU

## CYCHWYN O'R NEWYDD

Clwb pêldroed Uwchradd yr Urdd De Morgannwg
o dddd Sadwrn, 7eg Fedi 1994
Yn Nghaeau Llandaf rhwng 11.15 - 12.15 pm

Croeso i fechgyn blwyddyn 7 & 8 Ysgol Uwchradd Glantaf fynychu'r clwb

Cyfle i ymarfer sgiliau peldroed a chystadlu yn erbyn timau lleol

Pris - 80c

Staff a chymwysterau F.A.CYMR

## RATION BOOKS A BLACKOUT

A ninnau'n dathlu hanner can mlwyddiant 'D-Day' eleni, y mae'n naturiol i lawer ohonom ddwyn i gof brofiadau a gysylltwn a chyfnod yr Ail Ryfel Byd. Cofiwn am y gw9r a'r bechgyn ifainc fu'n brwydro ar faes y gad ac y mae'n dyled iddynt yn enfawr. Er hynny, efallai ein bod wedi anwybyddu cyfraniad pwysig y gwragedd fu'n gwarchod yr aelwyd ac yn magu teulu yn ystod y cyfnod anodd hwnnw. Ar eu hysgwyddau hwy fu'r dasg o gynnal teulu drwy'r blynyddoedd o brinder mawr. Bydd pob gwraig tŷ yn cofio am y Ration Book a'r dogni a fu ar fwyd a dillad, a chofio am y sloganau 'Waste Not, Want Not', 'Make Do and Mend', a 'Dig for Victory' a ddaeth yn orchmynion dyddiol iddynt. Cofio clywed y geiriau fel *queue, evacuees, utilitv a black-out* am y tro cyntaf a dysgu yr oblygiadau a ddaeth yn eu sgîl Cofio am wau dillad gwlan i'r milwyr, cofio am groesawu plant bach dieithr i'r cartref. Gwraig ifanc yn cofio am sefydlu cartref newydd yng nghyfnod y Rhyfel, plant yn cofio am werth y *points* ar gyfer prynu melysion a siocoled bob mis .....

Mae gan bawb ei stori ac 'rwyf yn awyddus i gofnodi atgofion y rhai ohonoch fu'n cadw tŷ yng Nghymru yn ystod cyfnod yr Ail Ryfel Byd. Beth am ysgrifennu pwt o lythyr ataf i son am rai o'r argraffiadau sydd wedi aros yn y cof? Hoffwn glywed am y llon a'r lleddf, am yr her a'r tro trwstan. Ewch ati i groniclo'r hanes pwysig hwn fel ei fod ar gof a chadw yn yr archifau yn Amgueddfa Werin Cymru. 'Rydym yn cynnig gwobr o *£25.00* am y llythyr gorau. Y cyfeiriad yw:

**Mrs. S. Minwel Tibbott**
Is-Geidwad,
Adran Adeiladau a Bywyd Cartref
Amgueddfa Werin Cymru
Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB

## UNED 5

Rhaglen gylchgrawn gyffrous a lliwgar ar gyfer plant 6-16eg oed yw Uned 5. Mae'r rhaglen yn ymdrin ag ystod eang o bynciau, yn ddoniol, difrifol, ysgafn ac addysgiadol, sydd o apêl arbennig i blant.

Os oes rhywbeth neu rhywun yn eich ardal chi yr hoffech dynnu sylw plant (a phobl) Cymru gyfan ato, neu os oes plant yn llechu yn eich ardal sydd â diddordebau anghyffredin neu ddoniau arbennig yna rhowch wybod i ni yma yn Uned 5. Chi yw ein llygaid yn y fro, ac rydym yn dibynnu arnoch i gysyllh tu â ni, er mwyn i ni gael rhoi'r sylw haeddiannol i blant a phobl ifanc yr ardal.

Byddwn hefyd yn rhedeg slot 'Be sy mlaen, felly anfonwch eich hysbysebion atom i'w darlledu bob nos Wener - unrhywbeth o ddrama Ffermwyr Ifanc i drip Ysgol Sul.

Bydd y gyfres nesaf yn cychwyn ar S4C ar Fedi 13eg ac yn cael d darlledu bob nos Fawrth a nos Wener am 5 o'r gloch. Edrychwn ymlaen at geywed gennych, a chofiwch wylio.


Yn gywir
**RUTH JONES**
*Ymchwilydd*

Uned 5, Cibyn, Caernarfon,
Gwynedd LL55 2BD Ffôn: 0286 678592

### Y Dinesydd Hydref

Dylid anfon adroddiadau, erthyglau a newyddion at y golygydd, Catrin Lloyd Rowlands, 15 Branwen Close, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4NE erbyn Hydref 1. Ffôn: 0222 598243

## A'R PETH ARALL



### W.J. YN ENNILL TLWS MARY VAUGHAN JONES

Cyhoeddodd y Cyngor Llyfrau Cymraeg enw enillydd Tlws Mary Vaughan Jones 1994, sef W.J. Jones, Caerdydd, sydd ar bwyllgor golygyddol Y Dinesydd.

Tlws Mary Vaughan Jones yw'r anrhydedd uchaf posib ym maes llyfrau plant ac fe'i cyflwynir bob tair blynedd am gyfraniad arbennig i faes llyfrau plant dros gyfnod o flynyddoedd.

Bu W.J. Jones yn gyfrannydd cyson i faes llyfrau plant ers 1957; yn awdur toreth o lyfrau; yn addasydd a golygydd. Ef yw golygydd y gyfres Enwogion v Byd, Llyfrau-Dyst a'r Gwyddoniadur i Blant. Bu'n olygydd y cylchgrawn Yr Athro am gyfnod; yn adolygu llyfrau plant yn gyson ac yn cyfrannu'n helaeth i gylchgronau'r Urdd.

Brodor o ardal Ysbyty Ystwyth, Ceredigion, yw W.J. Jones. Bu'n brifathro yn Ysgol Eglwys y Borth ac yn ysgol Gymraeg Ynysgedwyn, Ystradgynlais. Cyn iddo ymddeol ef oedd Pennaeth Adran y Gymraeg yn Athrofa Addysg Uwch De Morgannwg.

Cyflwynir iddo dlws arian mewn seremoni yn ddiweddarch yn y flwyddyn.


## Apêl Dinesydd 2000

*Tanysgrifiwch £15 i Dinesydd 2000*

Llenwch y ffurflen, ei rhoi mewn amlen a'i dychwelyd at Dinesydd 2000, d/o Surrexit Cysylltiadau Torfol, Rhadbost - Freepost, Parc Afon, Bridge Road, Ystum Taf, Caerdydd CF4 1ZZ

Dymunaf gyfrannu i Dinesydd 2000
☐ £15 ☐ swm arall
(nodwch faint) £_______

Enw: ..........
Cyfeiriad: ..........
..........
..........
Rhif ffôn: ..........
Dymunaf dalu â siec ☐ ticiwch yma os dymunwch gael derbynneb am eich siec ☐
archeb banc ☐ (llenwch gyferbyn)

*Archeb Banc*
I Fanc ccc ..........
Cangen ..........

Byddwch cystal â thalu i Fanc y National Westminster, 10 Heol Hendre, Pencoed, Penybont ar Ogwr, Morgannwg Ganol CF35 5NW (Rhif côd didoli 60-16-48) i gredyd Dinesydd 2000 rhif 56401388, y swm o £______ i ddechrau ar ___/___/___ ac wedyn bob blwyddyn/6 mis (dilëwch fel bo'r angen) hyd nes y derbyniwch rybudd pellach gennyf/ gennym, a debydu fy/ ein cyfrif yn unol â hynny.

Cyfrif i'w ddebydu ..........
Rhif y cyfrif ..........
Llofnod (ion) ..........
Dyddiad ..........


Cyhoeddir gyda chymorth Cyngor y Celfyddydau a'r Swyddfa Gymreig.

NEWYDDION

## YR EGLWYS NEWYDD

- Bu farw Dr Sonia Evans, Y Barri - seiciatrydd yn Ysbyty Sili a gwraig Mr D Gareth Evans, prifathro Ysgol Melin Gruffydd. Estynnwn ein cydymdeimlad iddo ef a'r teulu yn eu profedigaeth.
- Yng nghyfarfod blynyddol Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd, trosglwyddwyd llywyddiaeth y Gymdeithas gan Mrs Mair Tysul Jones i'r Parch Ddr Dafydd G Davies, ac etholwyd Mrs Glennys Roberts yn is-lywydd. Bydd cyfarfod cyntaf y Gymdeithas am y gaeaf nesaf yn cael ei gynnal nos Wener, Hydref 14, yn neuadd Capel Bethel, Yr Eglwys Newydd.
- Llongyfarchiadau i Elin Burns o Ysgol Melin Gruffydd am ddod yn drydedd yn y gystadleuaeth cyfansoddi barddoniaeth i blant dan 12 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni. Llongyfarchiadau hefyd i ddau arall o ddisgyblion yr ysgol, Geraint Manning a Mathew Daniel ar ddod yn ail yn y gystadleuaeth technoleg i grŵp 10-12 oed.
- Llongyfarchiadau i dîm criced Ysgol Melin Gruffydd ar ddod yn bencampwyr ysgolion De Morgannwg yn y gystadleuaeth 'Wrigley's Kwik Cricket'.
- Bu'r arbrawf o gynnal grŵp trafod llenyddiaeth Gymraeg yn yr Elgwys Newydd ar brynhawniau Iau dros y gaeaf diwethaf yn un llwyddiannus iawn. O'r herwydd, y bwriad yw parhau â'r dosbarth dros y gaeaf nesaf, gan ddechrau ym mis Hydref. Cynhelir y dosbarth rhwng 2 a 3.30 ar brynhawniau Iau yn neuadd Capel Bethel, sydd ger y goleuadau traffig yng nghanol yr Eglwys Newydd (ac sydd â digon o feysydd parcio rhad ac am ddim yn gyfleus gerllaw i'r rheini o'r tu allan i'r Eglwys Newydd sy'n dymuno ei fynychu). Cynhelir y dosbarth dan nawdd Adran Addysg Barhaol Prifysgol Cymru, Coleg Caerdydd, a bydd croeso cynnes i ddysgwyr profiadol yn ogystal â Chymry Cymraeg. Am ragor o fanylion, cysylltwch â Dr Gwen Awbery, Yr Adran Addysg Barhaol, 38 Park Place, Caerdydd CF1 3BB (Ffôn 874832).

COFIWCH ANFON NEWYDDION, MAWR A MAN, I'R DINESYDD

15 Branwen Close, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4NE

## O ARDALOEDD ERAILL

- Cyfansoddi emyn-don i eirau gan y Parch Ddr Noel Gibbard, Pen-y-lan, oedd un o gystadleuthau Eisteddfod Genedlaethol Nedd a'r Cyffiniau eleni, a chanwyd yr emyn-don fuddugol, o waith Ruth Lloyd Owen, Llanddoged, yn y Gymanfa Ganu ar ddiwedd yr Eisteddfod. Llongyfarchiadau hefyd i Dr Gibbard ar ddod i'r brig yn un o gystadleuthau llenyddol Eisteddfod Nedd a'r Cyffiniau, sef llunio deg o gyfarchion ar ffurf penillion telyn, a hynny dan feirniadaeth un o drigolion Rhiwbina, y Parch Ifor Rees.
- Llongyfarchiadau i un o aelodau Pwyllgor y **Dinesydd**, W J Jones, ar ennill 'Tlws Mary Vaughan Jones' eleni. 'Tlws Mary Vaughan Jones' yw'r anrhydedd uchaf posibl ym maes llyfrau plant ac fe'i cyflwynir bob tair blynedd am gyfraniad nodedig yn y maes hwnnw dros gyfnod o flynyddoedd. (Gweler tud 3)
- Llongyfarchiadau i Ysgol Gymraeg Penarth ar ennill rownd derfynol y cystadleuthau 'Llyfrau Cymraeg i Ysgolion Cynradd' a drefnir yn flynyddol gan Adran Llyfrau Plant y Cyngor Llyfrau Cymraeg.
- Estynnwn ein cydymdeimlad i un o golofnwyr **Y Dinesydd**, Mair Treharne, a'i theulu, yn y brofedigaeth o golli ei thad yn ddiweddar.
- Daucanmlynedd yn ôl bu farw'r emynydd enwog, Dafydd William, un o sylfaenwyr achos y Bedyddwyr yng Nghroes-y-parc, Llanbedry-fro. Ei fywyd a'i waith fydd pwnc cyfarfod cyntaf Cylch Llyfryddol Caerdydd am y gaeaf nesaf, a gynhelir nos Wener, Medi 23 yn festri Capel Minny Street am 7 o'r gloch. Y siaradwr fydd Mr E Wyn James, sydd newydd ei benodi'n Ddarlithydd yn Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru, Coleg Caerdydd. Dewch yn llu i un o gymdeithasau Cymraeg mwyaf llewyrchus y brifddinas. Y tâl aelodaeth am y flwyddyn yw £3.

## LLANDAF

- Tawel yw bywyd Cymraeg pob ardal yng Nghaerdydd rhwng y 'Steddfod a dechrau tymor yr ysgolion. Felly, digon tawel yw hi ar Y Llain yn Llandaf hefyd. Ond mewn un cartref y mae yna gyffro a pheth pryder. Y mae Mali Harries yn ferch ddawnus a llwyddianus ond a phroblem go enbyd yn ei wynebu hi a'i theulu. Y mae wedi ei derbyn i ddilyn Cwrs Perfformio yn y Bristol Old Vic ac yn awchu am fanteisio ar y cyfle. Cafodd ei derbyn yn ddiamod. Ond newyddion da ddaeth iddi - cafodd dair A, un B ac C yng nghanlyniadau Lefel A. OND nid yw'r Awdurdodau Addysg yn fodlon rhoi unrhyw grant iddi. Mae'r cwrs yn gostus, ac y mae amheuaeth a all fanteisio ar ei lle ym Mryste. Derbyniodd beth nawdd gan yr actor Syr Anthony Hopkins, ond y mae'r bwlch rhwng gallu mynd neu beidio yn fawr.

  Y mae stori Mali yn adlewyrchu gwewyr llawer o'n hieuenctid disglair sydd ar drothwy gyrfa ac yn adlewyrchu'n wael ar agwedd ein Awdurdodau Lleol. Hyn yn llesteirio talent a brwdfrydedd y to iau.

  Gobeithio erbyn y daw rhifyn nesaf **Y Dinesydd** allan y bydd diweddglo hapus i stori Mali a sawl unigolyn arall.

- Llongyfarchiadau i'r Dr Deri Tomos, mab David a Heulwen Thomas ar ei urddo er anrhydedd i Urdd Derwydd (y wisg wen) yn Eisteddfod Genedlaethol Nedd a'r Cyffiniau eleni.

  Magwyd Deri yn Llandaf a chafodd ei addysg gynradd yn Ysgol Bryntaf. Mae bellach yn uwch ddarlithydd yn Ysgol Gwyddorau Bioleg, Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor lle mae'n arwain grŵp ymchwil ar gelloedd planhigion. Mae'n briod a chanddo un mab ac yn byw yn Llanllechid.

  Mae ei lais yn gyfarwydd ar y cyfryngau lle mae'n ceisio poblogeiddio gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Llongyfarchiadau i'r Parchedig Haydn a Doreen Thomas ar enedigaeth mab bychan, Mathew, brawd bach i James. Llawenydd mawr i Tadcu a Mamgu ac i rhieni Alison a John Keys.

# RHAGOROL DYMOR GERAINT

Nos Fercher, Gorf'fennaf 20 - sef' 16 mlynedd i'r diwrnod yr ordeiniwyd ef a'i sefydlu'n weinidog yno - daeth 173 o bobl ynghyd i Swper Ymadawol y Parch. Ddr. Geraint Tudur yn Ebeneser, Caerdydd. Y nos Sul ganlynol, cynhaliwyd yn yr eglwys Wasanaeth o Ddiolch am flynyddoedd bendithiol ei weinidogaeth, a chynulleidfa luosog unwaith eto'n bresennol.

Nodyn o ddiolchgarwch ac o lawenydd a drawyd yn y ddau gyfarfod, o'r weddi agoriadol yn y festri nos Fercher hyd eitem olaf y gwasanaeth nos Sul, er bod hyn yn gymysg â'r ymdeimlad o dristwch o golli cwmni Dr Geraint a'i deulu. Trist hefyd oedd gorfod cyhoeddi marwolaeth cyn-ysgrifennydd yr eglwys, Mr Leslie Jones, sef un o'r pedwar gŵr a anfonodd yr alwad at Dr Geraint yn y lle cyntaf.

Rhaid diolch yn gynnes i bawb a gymerodd ran yng ngweithgareddau'r ddwy noson ac a gydweithiodd mor hapus â'i gilydd i sicrhau fod y cyfân yn gymaint o lwyddiant. Dylid enwi'n arbennig yma Mrs Elizabeth Fouladi (ein darmerthwraig broffesiynol)! Mr Tom Evans (a sicrhaodd fod lle yn y festri i bawb a phopeth) a Mrs Freda Evans (a weithiodd mor ddyfal i drefnu'r gwasanaeth nos Sul). Cawsom areithio ffraeth, difyr ac ystyrlon gan aelodau unigol ar y ddau achlysur, a phob un ohonynt, yn ei ffordd unigryw ei hun, yn rhoddi teyrnged hael a didwyll i Dr Geraint a'i deulu, gan ddymuno'n dda iddynt i'r dyfodol. Cyflwynwyd nifer o roddion i'r gweinidog a Mrs Carolyn Tudur, gan gynnwys tysteb sylweddol yn ystod y gwasanaeth nos Sul. Ymhlith y teyrngedau, darllenwyd barddoniaeth huawdl a phersain o waith Mr T. Arfon Williams, y Parch. W. Rhys Nicholas, y Prifardd John Gwilym Jones, a Miss Eira Jones.

Ar ddiwedd noson y Swper, cyflwynodd Dr Geraint yntau rodd arbennig i Mr Gareth Jones sydd, ers pum mlynedd, wedi bod yn gofalu mor ffyddlon ac mor effeithiol am glybiau'r plant a'r bobl ifanc yn Ebeneser. Mawr yw ein dyled i Gareth am ei waith clodwiw.

Yn ôl dymuniad teulu'r gweinidog, dechreuwyd gweithgareddau'r noson hon, a'u diweddu, drwy i'r gynulleidfa ganu emyn. Cafodd pawb fynd adref, felly, a naws yr Efengyl yn eu calonnau.

Rhaglen lawn ac amrywiol o ganu, llefaru a darlleniadau a gawsom nos Sul, a gellir dweud fod sglein arbennig ar y perfformiadau oll, ac i'r gwasanaeth ar ei hyd fod yn fynegiant gwir deilwng a bendithiol o ddiolchgarwch yr aelodau am weinidogaeth Dr Geraint dros y blynyddoedd.

Yn rhan o'r gwasanaeth, rhoddodd yr Ysgrifennydd, Dr W. Emrys Evans, deyrnged dwymgalon i'w weinidog fel pregethwr grymus ac ysgolhaig disglair. Fe'i haddolid gan y plant a'r bobl ifanc, meddai - ni fyddai byth yn "boring" yn eu golwg hwy. I'r henoed, yr oedd yn 'gariad". Tystiodd i effeithioldeb gweithgarwch creadigol diflino Dr Geraint yn y gymdeithas a'i gyfraniadau gwerthfawr a gwreiddiol i fywyd y capel ei hun. Bu cyfraniad Carolyn hithau'n gwbl allweddol ac yn amhrisiadwy, a'r tri "brenin" Dafydd, Llywelyn a Gruffudd yn gymorth i gadw traed eu tad ar y ddaear.

Gorffennodd Emrys ei deyrnged trwy ddarllen pedwar englyn John Gwilym Jones, gan ddweud fod y rhain yn cyfleu ac yn crynhoi teimladau pob un o aelodau Ebeneser. Rhaid bodloni yma ar ddyfynnu un englyn yn unig, gan ddiolch o galon i'r beirdd i gyd am eu cyfraniadau gwerthfawr:

> Am un ddaeth atom a'i ennaint - i Dduw
> Rhown ddiolch am gymaint;
> Rhagorol dymor Geraint
> Rhy fyr oedd - ond mawr fu'r fraint.

Mrs Carolyn Tudur a siaradodd nesaf. Diolchodd yn ddiffuant iawn am bob cefnogaeth a gafwyd yn y gorffennol, ac am bob diddordeb a ddangoswyd yn y teulu. Pwysleisiodd gymaint o hwyl a mwynhad a fu'r blynyddoedd yng Nghaerdydd. Diolchodd i'w holl ffrindiau, gan ddweud y byddai ganddi atgofion melys am yr amser a dreuliodd yn y brifddinas.

Siaradodd Dr Geraint ei hun nos Fercher a nos Sul. Mynegodd yntau ei ddiolch am yr hyn a ddarparwyd ar y ddau achlysur, ac am bob cefnogaeth, caredigrwydd a gofal a gafodd y teulu gan Ebeneser yn ystod blynyddoedd ei weinidogaeth yno. Mynegodd ar y ddwy noson hefyd gymaint yr oedd wedi mwynhau bod yn weinidog yn Ebeneser - "mae wedi bod yn sbort", chwedl yntau nos Fercher. Beth bynnag oedd yr amgylchiadau, meddai, fe wnaethom bopeth gyda'n gilydd. Yn fwy na dim, yr oedd ef a'r teulu'n diolch i'r aelodau am gael rhannu â hwy gyfoeth cymdeithas eglwys Iesu Grist. Gobaith y teulu oedd eu bod wedi llwyddo i adael ym meddyliau pobl Ebeneser ryw gymaint a fyddai wedi cyfoethogi eu bywydau, fel y gallent edrych yn ôl ar yr 16 mlynedd diwethaf fel rhai hapus.

Dywedodd Dr Geraint nos Sul iddo deimlo erioed yn Ebeneser ei fod yn aelod o deulu cymwynasgar, teulu na allai gyflawni dim hebddo. Yr oedd wedi diolch nos Fercher am y pleser o gael cydweithio â swyddogion yr eglwys, a'r diaconiaid ac â'r holl aelodau. Yn awr - wedi rhoi gair arbennig o glod i'r plant am eu

*Parhad ar tud 11*

## GADAEL CAERDYDD

# DAU GYMRAWD NEWYDD I C.C.C.C.



Mae Cymdeithas Cysylltiadau Cyhoeddus Cymru wedi dyrchafu dau o'i sylfaenwyr yn Gymrodyr o'r Gymdeithas.

Y ddau yw Wynne Melville Jones, cadeirydd cyntaf y Gymdeithas a John Bevan sydd hefyd yn gyn-gadeirydd.

Mae Wynne Melville Jones (chwith) yn gyfarwyddwr y cwmni cynllunio a chysylltiadau cyhoeddus, Strata'Matrix sydd â swyddfeydd yn Aberystwyth a Chaerdydd tra mae John Bevan yn Bennaeth Gwasanaethau Cyhoeddus Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Dywedodd Cadeirydd presennol y Gymdeithas, Mansel Jones, "Rhoddodd Wynne a John wasanaeth mawr a'u teyrngarwch i'r Gymdeithas o'r cychwyn. Drwy eu proffesiynoldeb maent yn helpu i roi statws i'r busnes cysylltiadau cyhoeddus yng Nghymru."

Sefydlwyd C.C.C.C. ym 1978 fel fforwm i'r Cymry Cymraeg sy'n gweithio'n broffesiynol ym myd Cysylltiadau Cyhoeddus.

Mae'r Gymdeithas yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn cysylltiadau cyhoeddus ac yn ceisio sicrhau safonau proffesiynol drwy wneud yr aelodau'n ymwybodol o'r technegau a'r dulliau diweddaraf.

Mae'r Gymdeithas hefyd yn cynnig gwasanaeth i sefydliadau yng Nghymru a thu allan a rhoddir cymorth i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Mae gan C.C.C.C. dros 60 o aelodau.


# TUDALEN Y PLANT

Ar Fedi 13eg bydd Gaynor, Garmon a Nia yn ôl ar S4C mewn cyfres newydd o Uned 5. Bydd y rhaglen yn cael ei darlledu bob nos Fawrth a nos Wener am 5 o'r gloch.

Os hoffech ymuno â CHLWB UNED 5 anofonwch ddau lun bychan ynghyd â'ch enw a'ch cyfeiriad atom yn y cyfeiriad isod:-

Uned 5, Cibyn, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2BD

Pob hwyl gyda'r gêmau - mae'r atebion i gyd ar waelod tudalen.



**_AR DRAWS_**


1 Gŵr Nain (4)
3 Cewch ymuno â hwn (4)
6 Un sy'n gweithio â'i ddwylo (6)
7 Lliw brân (2)
8 Hi sy'n edrych ar eich ôl (3)
11 Gwlan dafad (3)
12 --Ni, --Chi (2)
15 Cyflwynwr Uned 5 (6)
16 ----5 (4)
17 Gofalu amdanoch yn yr ysbyty (4)

**_I LAWR_**

1 Cewch weld Uned 5 ar hwn (6)
2 Beth wnewch â llyfr (6)
4 Ar --- y môr (3)
5 --- a saeth (3)
9 Mae'n eich cario drwy'r awyr (6)
10 Saith diwrnod (6)
13 Gwisg aderyn (3)
14 Cartref pryf copyn (3)


.........*Datrysiad ar dud 11*

* * * * * * * * * * * * * * * * * *



Lliwiwch y llun gan ddefnyddio'r lliwiau canlynol:-
**1** - Glas **2** - Melyn **3** - Oren **4** - Llwyd **5** - Piws **6** - Gwyrdd

Mae'r rhif 5 wedi dianc a'r cyflwynwyr wedi llwyddo i'w ddal. Mae'r ddau gyflwynydd arall yn gafael bob pen i'r un llinyn. Pwy sydd wedi dal y 5?




* * * * * * * * * * * * * * * * * * *

Mae'r geiriau canlynol wedi'u cuddio yn y blwch islaw, naill ai ar i fyny, ar draws, neu'n groes gongl. Ceisiwch eu darganfod.

Clwb, Cyfarchion, Difyr, Dim Trwbwl o Gwbwl, Fideo, Garddio, Garmon, Gaynor, Nain Nain Nain, Nia, Pêldroed, Plant, S4C, Steddfod, Sioe, Tŷ Ni Tŷ Chi, Uned 5

4 N I A T R I L L O P S T E D D F O D
C D S B D I M T R W B W L O G W B W L
P T L G 4 N A I N N A I N N A I N O S
D U G A R M O N M T C W 4 C R A T L 4
B P T Y U N E D 5 4 T P E L D R O E D
P L A N T T D P S R L B S W D A T D I
C R M O T 5 I B M A G B I B I 4 5 E F
B L N R C Y F A R C H I O N O R H D Y
W M O T Y N I T Y C H I E 4 P B L T R

## EDRYCH YN ÔL

*Yma mae plant Ysgol Y Wern yn son am ddau ddigwyddiad go wahanol un ar ymweliad â chanolfan ailgylchynu a'r llall â theml Hindwaidd.*





**Yn awr dyma adroddiad plant Blwyddyn 5 pan aethant ar ymweliad a Theml Hindwaidd yng Nghaerdydd**

Ar y 7fed o Fehefin aeth fy nosbarth i i ymweld a'r Deml Hindwaidd yn Grangetown.

Cyrhaeddom y Deml ac aethom yn syth i fyny'r grisiau a thynnu ein hesgidiau ac i mewn a ni. Y peth cyntaf ddaeth i'm meddwl oedd y prydferthwch. Roedd hi'n lliwgar iawn ac yn llawn aur a gemau.

Roedd y duwiau wedi cael eu harddangos ar yr allor a dau fodel o Ganesha a Hanuman ar bob ochr. Cafodd y duwiau eu haddurno gyda blodau ac roedd ffrwyth gyda nhw hefyd. Yr Hindwaid oedd wedi rhoi'r ffrwth i'r duwiau fel anrheg.

Dyn cyfeillgar iawn o'r enw Mr Patel oedd yn esbonio popeth i ni. Ac ar ol hynny dyma ni yn cael tro i chwarae offerynnau. Roedd yna ddrymiau a harmoniwm a gong. Roedd cannwyll yn y blaen a'r Llyfr Sanctaidd a phar o sandalau un o'r duwiau.

Pan oedd hi'n amser cychwyn adre dyma ni'n cael byg bach yn dweud 'Jay Swamunarayan Cardiff' ar y rhuban.

Roeddwn i'n hoff iawn o'r bwyd - cymysgedd o fflwr a pherlysiau. Roedd yn sbeisi iawn. Roedd wedi bod yn drip gwerth chweil.



Hoffai'r Urdd yn Ne Morgannwg estyn ei llongyfarchiadau i Ysgol Gymraeg Treganna am ennill cystadleuaeth Rownders Cynradd yr Urdd De Morgannwg, mi dderbyniodd yr ysgol Dlws Rownders yr Urdd am ei llwyddiant. Cafwyd prynhawn llwyddiannus a phoeth iawn yn Nghaeau Llandaf fis Gorffennaf diwethaf lle chwaraewyd Rownders o safon uchel iawn gan bob tîm a fu'n gystadlu. Hoffai'r Urdd hefyd ddiolch i Ysgol Gymraeg Bro Eirwg, Ysgol Gymraeg Sant Baruc, Ysgol Gymraeg Coed y Gof a Ysgol Gynradd Allensbank am eu cefnogaeth parod i'r achlysur.

## YMWELIAD PLANT BLWYDDYN 3 Â'R GANOLFAN AILGYLCHYNU COLCHESTER AVENUE

Yn gyntaf, dangosodd y dyn gwahanol fathau o boteli i ni. PE: y rhai â siap doniol. PET: yw'r rhai fel lemoned a coke a PVC yw'r rhai plastig fel potel laeth.

Roedd rhaid i ni wisgo helmet a chot i ddechrau. Yna aethom i weld y caniau alwminiwm a dur. Gwelon ni sut oedd gwahanu alwminiwm a'r dur. Roedd magnet mawr yn atynnu y rhai dur ac yn gadael y lleill.

Aethon ni wedyn i weld peiriant a phob math o bethau arno. Roedd dyn yn grwpio'r pethau, fel poteli gwydr, papur newydd a chylchgronau. Aethon ni hefyd i weld pentwr o ganiau dur yn cael eu gwasgu.

**RHIAN OWENS**

## CLWB PÊLDROED YR URDD DE MORGANNWG

Flwyddyn yn ôl sefydlwyd Clwb Pêldroed Cynradd yr Urdd yn Ne Morgannwg. Ymgasglodd ryw 45 o blant fore heulog o Fedi i'r sesiwn cyntaf ac ers hynny bu'r clwb yn tyfu o nerth i nerth efo dros 65 o aeoldau dros y flwyddyn gyfan. Bu bechgyn ac ychydig ferched yn mynychu'r clwb yn gyson drwy'r Gaeaf a Gwanwyn, plant rhwng yr oedran o 7 - 11 mlwydd oed. Mi ddernyiodd y Clwb nawdd gan gwmni teledu Fflic ganol y flwyddyn a hyn yn golygu fel yr oedd modd inni drefnu gêmau yn erbyn timau lleol. Trefnwyd dau dim, un i'r plant 9 oed ac o dan ar llall i'r bechgyn dan 12 mlwydd oed. Chwaraewyd ryw 7 gêm yr un i bob tîm yn ystod y flwyddyn a bu'r tîm iau yn ffodus i ennill bob gêm â chwaraewyd.

Oherwydd llwyddiant y clwb cynhalwyd 'Ysgol Bêldroed yr Urdd' yn ystod gwyliau'r Sulgwyn efo dros 100 o blant yn cymryd rhan yn y diwrnod pêldroed. Teimlaf fod y clwb yn rhoi cyfle nid yn unig i blant cynradd Cymraeg y Sir dderbyn gwersi pêldroed drwy gyfrwng y Gymraeg ond hefyd yn galluogi'r plant i gymysgu a gwneud ffrindiau newydd o ysgolion gwahanol.

Oherwydd llwyddiant y Clwb Pêldroed Cynradd rydym wedi penderfynu sefydlu Clwb Pêldroed Uwchradd yr Urdd fydd yn dechrau o'r newydd fis Medi 1994.

Hoffwn ddiolch o waelod calon i Gary Lewis a Sion Lewis am hyfforddu'r plant drwy'r flwyddyn ac hefyd i rieni'r clwb a fu mor gefnogol i bob gêm ac achlysur.

**SIAN JOBBINS**

## GOHEBYDD NEWYDD I'R DDINAS



Penodwyd Eleri Morgan o Gaerdydd i'r swydd o Ohebydd Newyddion BBC Cymru yng Nghaerdydd a De Ddwyrain Cymru.

Mae Eleri, sy'n 26 oed ac yn byw yn Y Rhath, Caerdydd, yn olynnu Betsan Powys. Yn rhinwedd ei swydd newydd fe fydd hi'n gyfrifol am fynd ar ôl straeon yn ardal Caerdydd, Morgannwg Ganol a Gwent, a pharatoi adroddiadau ar gyfer rhaglenni Newyddion ar S4C.

Ganwyd a magwyd Eleri yn Rhiwbeina gan fynychu Ysgolion Bryntaf a Glantaf cyn graddio yn y gyfraith o Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth a dilyn cwrs newyddiaduraeth yng Ngholeg Caerdydd.

Mae Eleri eisoes yn wyneb cyfarwydd ar raglenni S4C fel cyn-newyddiadurwraig i HTV; bu hefyd yn gweithio i Newyddion Radio Cymru a bydd yn cyflwyno rhaglen **Saith ar y Sul** yn achlysurol.

Cofiwch os bydd ganddoch chi stori neu newyddion lleol a allai fod o ddiddordeb, cysylltwch ag Eleri yn Adran Newyddion BBC Cymru, Ffôn: (0222) 572654/572667.

**Rhannu tŷ:** person proffesiynol i rannu ty yn ardal Ffynnon Taf, Caerdydd. Am fanylion pellach, ffonier 0222 813908

**Ar osod:** Ystafell i'w gosod yn Y Rhath. £140 y mis a rhannu biliau. Cysyllter â 0222 464415

**Rhannu ty:** Angen person profesiynol i rannu ty yn Nhreganna. £160y mis. Am ragor o fanylion cysyllter â 0222 566158

LLIW A LLUN

# BLAS AR GERDDORIAETH Y CARIBÎ



Y band ar Lwyfan Eisteddfod yr urdd

Yn Eisteddfod yr Urdd Dolgellau eleni, cafwyd blas ar ddiwylliant cerddorol y Caribî pan ddaeth Band Dur Ysgol Fitzalan, Caerdydd ar ymweliad yno.

Cystadlodd y "band dur" yn y gystadleuaeth gerddorfaol o dan 25 oed a daethant yn gyntaf gyda'u perfformiad cyffrous o "Ryfelgyrch Gŵyr Harlech" Cawsom wledd o berfformiad gan y gerddorfa o dan arweinyddiaeth dawnus Wahda Placide, cerddor yn wreiddiol o ynys St. Lucia yn y Caribî. Roedd yn drefniant unigryw ac amrywiol iawn o'r dôn enwog, a dangoswyd disgyblaeth gref gan y chwaraewyr ifanc.

Os oedd hyn yn brofiad newydd i Eisteddfodwyr i'w clywed, roedd hefyd yn brofiad newydd i'r 'panwyr' i fynd fyny i Ogledd Cymru a gweld y golygfeydd trawiadol o gwmpas Dolgellau, heb son am brofi diwylliant yr ardal a'r Eisteddfod ei hun.


Cychwynwyd dysgu'r paniau dur yn ysgol Fitzalan yn1991 a daethant i'r amlwg yng Nghymru ar ôl ymddangos ar 'Heno' ym mis Ionawr eleni ac hefyd ar Slot Sadwrn beth amser yn ôl. Mae'r fuddugoliaeth hon wedi dod a mwy o amlygrwydd eto iddynt.

Yn ogystal â chwarae'r paniau dur, mae cefnogaeth gref i'r Gymraeg yn yr Ysgol sy'n derbyn plant o ardaloedd y dociau, Trefynach, Glanyrafon a Threganna. Mae 30 o wahanol genhedloaedd o fewn yr ysgol a dwy ar bymtheg o ieithoedd rhyngddynt. Mae parch mawr i'r gwahaniaethau diwylliannol o fewn yr ysgol. Mae dysgu Cymraeg yn ehangu ar yr amrywiaethau yma ymhellach a gan fod Cymraeg yn orfodol fel pwnc ar draws y cwricwlwm, mae llawer o blant yn dysgu Cymraeg heb fod yn gallu siarad Saesneg hyd yn oed. Felly, yn aml iawn, rhaid dysgu'r plant yma drwy gyfrwng y Gymraeg.

Agorwyd y drysau i ddiwylliannau estron eleni yn yr Eisteddfod gyda'r Gyngerdd Rhyngwladol ar gyfer helpu pobl Bosnia a bu'r paniau dur yn chwarae yno hefyd. Braf oedd gweld yr Eisteddfod yn lledu ei gorwelion ychydig.

Mae'r band yn gobeithio parhau gyda'r cystadlu a gobeithio y gall plant eraill o'r ysgol ymuno mewn cystadleuaethau eraill y flwyddyn nesaf. Mae'r ysgol yn dathlu ei pumed blwydd ar hugain eleni, felly pa gwell ffordd o ddathlu na thrwy ennill yn Eisteddfod yr Urdd yn Nolgellau.

# Y CROESAIR - AP LEWSYN RHIF 140




### AR DRAWS

1. Aeth rhywbeth o gell Dic ar ddisberod. (7)
5. Dysgub y rhan fwyaf o'r ysgubor. (6)
9. Dwy afon yn rhedeg i'w gilydd yn arswydus. (7)
10. Gogledd Palesteina. (7)
11. Coed y cnau. (3)
12. Pawb! (1,3,1'1,5)
13. Yn ystod yr ymgyrch, bu i Gwilym, un o fechgyn y pentre, ymaelodi. (5)
14. Honna Alun, mewn cynnwrf, nad ei les ei hun sy'n bwysig iddo. (9)
16. Cyfrolau i gadw cofnodion? (9)
17. Dyna ddiwedd ar yr egwyddor. (5)
19. Pentre bychan ger Corris sy'n enwog am ei lechfaen. (11)
22. Draw acw. (3)
23. Marion Eames, efallai, neu un o'r chwiorydd Brontë. (7)
24. Yn ymwneud ag unedau iaith (7)
26. Mae tair ohonynt yn y sgrym. (6)
27. Yn disgleirio fel Polaris. (7)

### I LAWR

1. Ni cheir cyw ohono er ei bod hi'n bosib iddo roi lonc i'r cyw. (7)
2. Y pentre ger Caerdydd oedd yn gartre i gyfansoddwr "Cwm Rhondda". (8,7)
3. Cyrraedd a rho. (3)
4. Un felly oedd Mair. (5)
5. Ystyr ffigurol fyddai "yn puro". (2,7)
6. Llaith. (5)
7. Helyntion y Dydd ar lafar. (7,8)
8. Fe gewch y pecyn tua'r top ar seld y gegin. (6)
12. Nid yw hwn yn cyrraedd tan ddiwedd y dydd. (5)
14. Mesur a fydd yn cael ei wasgaru mewn camddealltwriaeth. (9)
15. Roedd hi yn fam-yng-nghyfraith i Ruth. (5)
16. Byddai'r hen genhedlaeth wasaidd yn eu galw yn "wŷr mawr". (6)
18. Persawr neu sawr drwg. (7)
20. Rhoi teils o dan draed wrth lwyr orchfygu. (5)
21. Cyflwynodd y genadwri mewn Sbaeneg esmwyth. (5)

### DATRYSIAD 139



### CYSTADLEUAETH RHIF 139

Daeth un-ar-ddeg o gynigion i law, ond dim ond chwech ohonynt oedd yn hollol gywir. O'r rhain, yr enw a dynnwyd oedd Hywel Jones, 4, Heol Heath Halt, Y Mynydd Bychan, Caerdydd, ac mai'r tocyn llyfr eisoes ar ei ffordd iddo.

Cafwyd atebion hollol gywir hefyd oddi wrth Nans Couch, Y Mynydd Bychan; Carys Humphreys, Bangor; Shan Emlyn, Llandaf; T.A. Owen, Llandaf; a Mair Morgan, Treganna.

### CYSTADLEUAETH RHIF 140

Tocyn Llyfr £5 fel arfer. Yr atebion i gyrraedd Ap Lewsyn, 13, Rannoch Drive Cyncoed, Caerdydd erbyn Medi 30, gwelwch yn dda.

# PENODIAD

## CWMNI HYSBYSEBU CYMRAEG YN PENODI RHEOLWR CYFRYNGAU




Mae Surrexit Creadigol, asiantaeth hysbysebu a marchnata o Gaerdydd, wedi penodi Glyn Llywelyn Williams, 24 oed, i swydd Rheolwr Cyfryngau.

Yn gyn-lywydd cenedlaethol undeb myfyrwyr UCMC, daw Glyn Llywelyn Williams o Nefyn, Llyn, a'i brofiad o'r byd cysylltiadau cyhoeddus a lobio gwleidyddol i Surrexit.

Mae Surrexit Creadigol yn asiantaeth unigryw yn y byd hysbysebu a marchnata yng Nghymru, gan arbenigo ar waith marchnata gwreiddiol a chreadigol i rai o sefydliadau blaenaf Cymru.

Meddai Glyn Llywelyn Williams "Rwy'n dod â'm mhrofiad i gwmni marchnata blaengar sy'n gallu cynnig pecyn marchnata cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae arbenigrwydd Surrexit yn gynhwysfawr, ac yn cynnwys dylunio a rheoli cynadleddau, fideos hyrwyddol a hysbysebion teledu, prynu cyfryngol ac ysgrifennu creadigol.

"Mae gan ochr ddwyieithog Surrexit ran gynyddol i'w chwarae yn y Gymru gyfoes, lle mae mwy a mwy o sefydliadau yn dymuno hyrwyddo'u cynnyrch a'u gwasanaethau drwy ymgyrchoedd penodol gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn greadigol ac yn llawn dychymyg. Rwy'n ymuno â chwmni sydd â phrofiad pendant o wneud hynny.

"Fy ngwaith cyntaf fydd asesu oblygiadau'r Ddeddf Iaith i'r sectorau marchnata a hyrwyddo yng Nghymru, a datblygu cynlluniau fydd yn caniatau i'n clientau fynd i'r afael â defnyddio'r ddwy iaith."

Ymhlith gwaith hyrwyddo diweddar gan Surrexit Creadigol mae ymgyrch farchnata, wedi ei hanelu at Ogledd America ac Ewrop, ar gyfer Sgrin Cymru yn defnyddio cyfryngau fideo a phrint.

*Parhad ar tud 11*

## Y BARRI

- Llongyfarchiadau i Lestyn Theophilus, BA, mab Trevor a Margaret Harris, Trem-y-Don, ac Enid Angharad, BA, merch Alwyn ac Ella Owens ar achlysur eu priodas yn y Capel Mawr, Porthaethwy, Ynys Môn ar 23 Gorffennaf.

  Hefyd, rhaid llongyfarch lestyn ar ennill gradd LLB Prifysgol Llundain gydag Anrhydedd. Mae lestyn, sy'n gyn-ddisgybl o Ysgol Llanhari, yn gyfreithiwr yn Y Bala.

- Pob bendith a dymuniadau da i'r Parchedig Beti-Wyn Davies sy'n cychwyn fel gweinidog yr Eglwys Annibynnol Gymraeg yn y Tabernacl.

  Bydd y cyfarfod sefydlu b' nawn Sadwrn, 17 Medi am 2 o' r gloch.

## YMADAEL Â GLANTAF

Ar ddiwedd blwyddyn ysgol peth digon naturiol a chyffredin yw ffarwelio â rhai athrawon. Ond eleni fe ffarweliwyd â naw o athrawon ymroddedig Glantaf. Roedd pump o rheini yn benaethiaid adrannau sydd wedi gwasanaethu Glantaf am flynyddoedd lawer. Gwerthfawrogir eu llafur a'u cyfraniad gwerthfawr i ddatblygiad yr ysgol ac fe adewir bwlch mawr ar eu hôl. Dymunwn iddynt ymddeoliad bir a hapus.

## ANRHYDEDDU PRIFATHRO

Yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Nedd a'r Cyffiniau eleni cafodd prifathro Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yr anrhydedd o'i urddo i'r Orsedd gan dderbyn y wisg wen. Rhoddodd Mr Thomas oes o wasanaeth i addysg ac am y pymtheng mlynedd diwethaf bu'n brifathro cwbl ymroddedig yng Nglantaf. O dan ei arweiniad sicr a doeth aeth yr ysgol o nerth, a hyfryd yw gweld yr Eisteddfodd yn cydnabod y gwasanaeth diflino hwn.

## LLWYDDIANT CYN-DDISGYBLION GLATAF

Llongyfarchiadau i'r cyn-ddisgyblion canlynol Ysgol Glantaf ar eu llwyddiant academaidd. Enillodd Sarah Lloyd ei doethuriaeth a Rachel Evans, Hawys Owen ac Esther Whifield y radd uwch o MA.

Clywyd hefyd bod y canlynol wedi graddio: Marc Roberts, Daniel Thomas, Gwenno Williams, Alun Eynon Evans, Owain Evans, Sian Williams, Dylan Hughes, Aled Walters, Lisa Reich, John Paul Barker, Eleri Davies, Catrin Rhys, Catrin Davies, Alun Roberts, Osian Leader, Sara Redman, Ruth Jones, Nia Lloyd, Cennydd Amos a Rachel Whitfield.

## DR. GERAINT

Cynnes iawn bob amser yw'r croeso a geir yn Eglwys Annibynnol Ebeneser, Heol Siarl. Yn rhan o'r croeso hwnnw ar y Sul, dosberthir taf'lenni sy'n dangos trefn gwasanaethau'r dydd a digwyddiadau'r wythnos sydd i ddod, a'r cwbl wedi'i baratoi mewn modd hynod o ofalus a phroffesiynol ar brosesydd geiriau. Paratoir hef'yd gopiau print bras o'r emynau i'r rhai sydd â nam ar eu golwg. Mwy na thebyg y bydd yn y cyntedd rifynnau o'r **Llusern**, sef misolyn y capel, a'r rheini wedi'u cyfoethogi gan nifer o luniau camera yn cofnodi amryfal agweddau ar hanes Ebeneser a'i fywyd cymdeithasol.

Fodd bynnag, bu golygydd **Y Llusern** yn dechrau holi yn ddiweddar o ble y caiff luniau yn y dyfodol, oblegid y gwir yw fod y gweinidog dawnus a fu'n cyson fanteisio ar adnoddau technoleg fodern i hyrwyddo neges yr Efengyl yn bwriadu ymadael cyn bo hir. Wedi 16 mlynedd tra bendithiol yn weinidog ar aelodau Ebeneser, bydd y Parch, Ddr. Geraint Tudur yn ymgymryd â'i ddyletswyddau newydd yn yr hydref fel darlithydd yn Hanes yr Eglwys yn adran Astudiaethau Crefyddol Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor. Er cymaint fydd y golled ar ei ôl, ni allwn ond ymlawenhau yn ei lwyddiant, gan wybod y bydd yn parhau i weithio'n ddiflino dros y Deyrnas yn ei amgylchiadau newydd.

Eglwys Annibynnol Ebeneser, Heol Siarl yw'r unig eglwys i'r Dr. Geraint fod yn weinidog arni erioed, ac ef yw'r unig un sydd wedi bod yn weinidog ar Ebeneser yn ei safle presennol. Erbyn i'r hen Ebeneser gael ei chwalu ar ddydd Sul, Chwefror 5, 1978, yr oedd y gynulleidfa wedi symud i'r cartref newydd yn Heol Siarl ers dechrau'r flwyddyn. Oherwydd gwaith atgyweirio angenrheidiol yn yr adeilad, bu'n rhaid addoli am rai wythnosau yn neuadd Fawr Ysgol Gymraeg Bryntaf, y Pared. Ac yntau'r Parch. Emlyn G. Jenkins, cyn-weinidog y capel, wedi ymddeol, buom heb fugail am rai misoedd yn ystod y cyfnod anodd a chyffrous hwn, ond mawr fu ein gwobr yn y diwedd. Wedi symud yn ôl i'r cartref newydd, llawenydd o'r mwyaf, ar Orffennaf 20, fu cynnal yno gyfarfodydd ordeinio Mr Geraint Tudur a'i sefydlu yn weinidog arnom, ac yntau'n gawr o ŵr ifanc prydweddol, yn llawn addewid, ac yn "un o dras". Haeddiannol iawn oedd y dathlu yn Ebeneser y diwrnod heulog hwnnw, a gwireddwyd pob gobaith am weinidogaeth loyw yn y blynyddoedd dilynol.

Bwriodd y gweinidog newydd i'w waith ag egni ac ymroddiad rhyfeddol, gan ddod â'i alluoedd a'i argyhoeddiadau arbennig ef i'r gorchwyl a'i hwynebai. Daeth â rhyw newydd-deb a rhyw ffresni heintus i'r pulpud ac i fywyd yr eglwys yn gyffredinol. Cafwyd ganddo bregethu'r Gair yn rymus ac yn gyfoes, heb of'ni lleisio barn bendant ar rai o bynciau llosg y dydd. Ar bregeth ac ar weddi, pwysleisiodd mai Duw sy'n teyrnasu, mai ei fyd Ef yw hwn, ac mai ei bobl Ef ydym. Mawr fu ei ddiolch erioed am Fendithion Duw a'i drugaredd tuag atom. Mawr hefyd fu ei hiraeth am ddyfodiad y dydd y llenwir y byd â thangnefedd Duw a'i ras. Gwnaeth ei orau bob amser i ddod â **llawenydd** y ffydd Gristnogol i'r oedfaon, a bu'n arbennig o lwyddiannus yn hyn o beth yn ei berthynas â phlant yr Ysgol Sul a phobl ifanc y capel. Ni bu yn Ebeneser erioed o'r blaen gymaint o chwerthin iach a churo dwylo brwdfrydig a phan arweiniai'r Dr. Geraint yr oedfa! Ni bu yno erioed gymaint o ganu hwyliog i gyfeiliant piano, organ neu gitâr - neu ddrymiau ac allweddellau! Ni bu'r un gweinidog, yn ei awydd mawr i gyflwyno'r Iesu, yn well storiwr, dynwaredwr na chonsuriwr! Diddordeb mawr Dr. Geraint yn rhai ifanc y capel sy'n gyfrifol am ffyniant clybiau'r plant a'r bobl ifanc yno heddiw. Dan ei arweiniad ef hefyd y sefydlwyd yr Ysgol Sul yn Llanrhymni a chymdeithas yr oedolion ifanc, **Agape**. Cafwyd cydweithrediad gwych iawn rhyngddo ef a'r to ifanc wrth iddynt gasglu dillad a blancedi ar gyfer y tlodion ac anffodusion eraill, a hynny dros Gymru benbaladr. Gwnaed gwaith arbennig o bwysig i helpu'r lloches a sefydlwyd yng nghanol Caerdydd. Rhoddodd Dr. Geraint ei gefnogaeth lwyr hefyd i'r gwahanol elusennau a gefnogwyd yn arbennig gan Ebeneser - rhai fel Cymdeithas Afiechyd Alzheimer a'r mudiad yn ymwneud ag afiechyd Motor Neurone.

Bu gofal y bugail dros weddill ei braidd yr un mor ymroddgar, fel y tystia ei ffyddlondeb di-ball i'r cwrdd gweddi, ei ddosbarth Beiblaidd cyson gyda'r Chwiorydd, a'i weithgarwch mawr mewn llawer cyfeiriad arall, megis yn y Gymdeithas Ddrama. Yn ychwanegol at y prysurdeb hwn, a chyflawni'n eithriadol raenus yr amryfal ddyletswyddau cwbl angenrheidiol hynny y disgwylir i bob gweinidog eu cyflawni'n ddirwgnach fel rhan o'i swydd, fe lwyddodd Geraint Tudur i ddal ei afael ym mhwnc ei ymchwil ysgolheigaidd, ac yn 1989 dyfarnwy iddo radd D.Phil. Prifysgol Rhydychen am ei draethawd ar fywyd a gwaith Howell Harris. Ceir rhagor o fanylion yn rhifyn mis Tachwedd o'r **Llusern** am y flwyddyn honno.

Yn ystod eu 16 mlynedd yng Nghaerdydd, mae Dr. Geraint a'i wraig, Carolyn (sydd hithau yn athrawes brofiadol), wedi magu tri o fechgyn ar yr aelwyd yn Dorchester Avenue. Cawsom ni, aelodau Ebeneser, y fraint a'r pleser o weld y teulu'n tyfu ac yn prifio dros y blynyddoedd, gan gydgyfranogi o bryd i'w gilydd o'r llawenydd a'r pryder a ddaeth i'w rhan yn ystod y cyfnod hwnnw. Gwyddom iddynt fod yn hapus iawn yma yn y brifddinas, a bu'r gymdeithas yn Ebeneser yn un arbennig o felys. Ar yr un pryd, gwyddom, wrth gwrs, fod Geraint a Carolyn yn edrych ymlaen, yn naturiol ddigon, at ddychwelyd i'r gogledd ac i'w broydd genedigol. Gwnaethant waith gwerthfawr dros ben yma yng Nghaerdydd, a diolchwn iddynt am eu cwmni. Llongyfarchwn Geraint yn arbennig ar ei lwyddiant, a dymunwn bob bendith iddo yn ei swydd newydd a phob hapusrwydd i'r teulu yn y dyfodol.

## WRTH DRAED GAMALIEL- COFIO ELVET THOMAS



Ym 1960 gadewais y gymdeithas glos, Cymraeg ei hiaith a Chymreig ei naws, a oedd ym Mhrifysgol Bangor, i ddod i Gaerdydd, i'm swydd gyntaf.

Y cyd-destun newydd oedd byd y Gymraeg fel ail iaith yn Ysgol Cathays. Ni wyddwn ddim am y sialens hon. Ac eithrio un argraff ddofn. Yn mynychu'r darlithiau Cymraeg ym Mangor oedd lleian o'r Iwerddon. Nid oeddwn wedi gweld lleian cyn hynny. Er bod ganddi wên siriol, ni chlywais hi'n dweud gair wrth neb. Gweithiai ar ei phen ei hun yn y Llyfrgell bob awr o'r dydd. Cafodd radd o'r dosbarth cyntaf. Bu hynny'n rhyfeddod mawr i mi. Sut y gallai rhywun na siaradai'r Gymraeg fel mamiaith elwa o ddilyn cwrs Anrhydedd Cymraeg, heb son am ennill gradd dosbarth cyntaf?

Yn Ysgol Cathays y cefais ateb i'r cwestiwn hwn. Pan ysgrifennir hanes datblygiad Addysg Gymraeg - ac yn arbennig y datblygiadau disglair a fu yn Ne a Chanol Morgannwg, bydd y patrwm a ddatblygwyd gan Mr Elvet Thomas yn Ysgol Cathays yn hawlio'r sylw blaenaf. Llwyddodd droi gweundir a mynydd yn nalgylch Cathays yn "weirglodd ffrwythlon ir".

Am ei waith mawr yn codi disgyblion Di-Gymraeg o athrylith fel yr Athro Bobi Jones, Tedi Milward, Gilbert Ruddock, Alwyn Prosser, Bill Raybould yn wŷr dysg, gwlatgar, parod i ymrwymo i weithio dros achos Cymru, cafodd Elvet radd M.A. er anrhydedd gan Brifysgol Cymru. Am gyfraniad tebyg i'r gyfundrefn addysg Seisnig byddai wedi cael llawer mwy!

Bu'n fraint i mi fod wrth draed y Gamaliel hwn am dair blynedd a thymor. Dysgais ganddo fod rhaid wrth sel cenhadol wrthsefyll y gyfundrefn addysg felltigedig - "y peiriant mwrdro cenedlaethol" fel y galwai ef hi. Yn Ysgol Cathays yr oedd Elvet ac eraill a oedd yn gefnogol iawn iddo, wedi sefydlu cysegredigrwydd yr Iaith Gymraeg; ac roeddent yn brwydro'n effeithiol dros gadw'r muriau'n gryf rhag unrhyw gloffi meddwl.

Sefydlai Elvet berthynas agos â'i ddisgyblion, yn arbennig y Chweched Dosbarth a gai wahoddiad i swper gydag ef a Mair yn eu cartre ar nos Nadolig. Bu Gwyneth a minnau i ddwy o'r swperau hyn. Ni allem ond rhyfeddu at weld cryts mawr y Chweched Dosbarth o gefndir hiliol cymysg ('roedd dalgylch Cathays yn gosmopolitaidd lle ceid trawsdoriad o deuluoedd o Roeg, yr Eidal, Sbaen, ac ati) yn dewis dod i sgwrsio'n Gymraeg ar nos Nadolig. Yr oedd yn achlysur cofiadwy ac mor wâr.

Mawrbrisiodd Elvet fy mhenodi'n Ddirprwy Rhydfelen. Digwyddodd hynny ym Mehefin 1963. Nododd Elvet gymaint y fraint fyddai i mi fod yn un o dadau sefydlu achos yr Ysgol Uwchradd Gymraeg gyntaf yn y De. Ac mae'n dda gennyf gydnabod fy nyled iddo. Plannodd ynof sicrwydd egwyddorion sylfaenol.

Yn y chwarter canrif y bum yn cyflawni fy nyletswyddau yn Rhydfelen, fy mlaenoriaeth oedd gweithredu yn ôl ysbryd tanbaid Elvet, a'i bwyslais ar roi trochiad ieithyddol lawn i'r disgybl drwy raglen gytbwys o weithgarwch academaidd a phrofiadau cymdeithasol.

Cyfrannodd llu o Gymry enwog ac anenwog at agor Ysgol Rhydfelen ym Medi 1962. Bellach mae nifer ohonynt wedi'u galw adre "a'u lle nid edwyn ddim ohonynt". Dywedir i Gwyn Daniel farw ym 1961 o orweithio dros achos Addysg Gymraeg. Cyflwynodd Max Evans ddeiseb ar ran y mudiad yr oedd Gwyn Daniel yn Gadeirydd arno, yn annog taw "Ysgol Uwchradd Gwyn Daniel" y dylid galw'r ysgol newydd "er coffa am ei aberthau mawr drosti." Bu farw'r Cyfarwyddwr - y Dr Emlyn Stephens - yr un mor sydyn mewn damwain car.

A bellach hefyd y diweddar Arglwydd Llewelyn Haycock. Ef a roes y sêl terfynol ar agor Ysgol Uwchradd Gymraeg. Gwnaeth hynny un prynhawn, mewn caffe yng Nghaerdydd lle daethai ef a Mr Raymond Edwards at ei gilydd i fanylu ar sut y dylid camu ymlaen.

Ond am iddo weithio mor ddiwyd ddi-ildio, mor ddi-sôn amdano, mor eithriadol lwyddiannus dros ddatgelu a datgloi teithi'r Gymraeg, credaf nad oes neb yn hawlio mwy o'r clod am adfywiad rhyfeddol y Gymraeg, yn Ne Ddwyrain Cymru ers y Chwedegau na'r annwyl ddiweddar W. C Elvet Thomas. Boed coffa da amdano.

**HYWEL WYN JEFFREYS**

## TEYRNGED

*Parhad o tud 9*

Mae'r cwmni hefyd wedi rhedeg dwy ymgyrch fawr i BBC Cymru dros y misoedd diwethaf, yn hyrwyddo'r rhaglen deledu Wales Today a'r gwasanaeth radio BBC Radio Wales ar bosteri mawr ar ochr y stryd, posteri ar safleoedd bysus, ochrau bysus, ac yn y wasg.

Ar hyn o bryd mae Surrexit Creadigol yn cyhoeddi gwaith mewn Almaeneg, Eidaleg a Gwyddeleg ar gyfer y Biwro Ieithoedd Llai eu Defnydd, un o sefydliadau yr Undeb Ewropeaidd ym Mrwsel. Mae'r llyfrynnau hyn yn barhad o gynllun llwyddiannus gan y cwmni ym 1993 ar gyfer y Biwro, ac sydd bellach yn cael eu defnyddio ar hyd a lled Ewrop.

Dywedodd Alun Ceri Jones, Partner Creadigol yn Surrexit "Mae mwy a mwy o'n gwaith bellach yn cael ei weld ledled Cymru ac Ewrop, lle mae ein cefndir dwyieithog a'n sgiliau ieithyddol o fantais amlwg. Rŷn ni wrth ein bodd bod Glyn Llywelyn Williams yn ymuno â ni nawr, wrth i ni wynebu dyfodol cyffrous."

Gellir cysylltu â Glyn Llywelyn Williams yn Surrexit Creadigol ar 0222 578772.

---

*Parhad o dud 5*

cyfraniad hwythau i'r noson - aeth rhagddo i gydnabod, mewn modd hwyliog a diddorol iawn, wasanaeth a chydweithrediad pawb sy'n cyfrannu at ffyniant bywyd dihafal teulu eglwys Iesu Grist. Gan ddechrau ag amryfal agweddau ar weithgareddau'r Sul, aeth ymlaen i son am y cwrdd gweddi a gwahanol gymdeithasau'r eglwys, gan dynnu i ben trwy bwysleisio fod yr aelodau i gyd yn hollbwysig yn y cyswllt hwn.

Yr oedd dau anerchiad Dr Geraint yn ffordd addas a theilwng iawn o ffarwelio'n gyhoeddus â'r rhai y bu'n eu gwasanaethu mor ffyddlon er 1978, a mawr oedd gwerthfawrogiad pawb o'i eiriau gwych a chofiadwy.

Wedi i'r gynulleidfa ganu "Tydi a wnaeth..." ar y don Pant Y fedwen, diweddwyd y Gwasanaeth o Ddiolch drwy i Grŵp Llefaru'r chwiorydd berfformio "Cyfarchiad".

G.R.

---

*Parhad o dud 6*

**CROESAIR:-**

*Ar Draws:*

1-Taid, 3-Clwb, 6-Labrwr, 7-Du, 8-Mam, 11-Cnu, 12-Tŷ, 15-Garmon, 16-Uned, 17-Nyrs

*I Llawr:*


1-Teledu, 2-Darllen, 4-Lan, 5-Bŵa, 9-Awyren, 10-Wythnos, 13-Plu, 14-Gwê

Pwy sy'n dal ei afael ar y 5? Gaynor

# Llongddrylliadau

Amgueddfa Genedlaethol Cymru
Parc Cathays, Caerdydd

3 Medi - 30 Hydref 1994



Olion o longddrylliadau wedi eu hadfer o waelodion y môr - cyfrinachau wedi eu suddo mewn amser.

Am wybodaeth bellach: (0222) 388111.

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gymorth ariannol y Comisiwn Amgueddfeydd ac Orielau.*

---

## y Dinesydd

**BOB MIS MAE DROS 10,000 O BOBOL YNG NGHAERDYDD A THU HWNT YN DARLLEN Y DINESYDD.**

ER MWYN CYRRAEDD Y NIFER MWYAF POSIB O GYMRY CYMRAEG CAERDYDD FFONIWCH MEURYN YN SWYDDFA WERTHIANT Y DINESYDD

**0222 455200**

***Cyfraddau hysbysebion sylw (mono):*** tudalen lawn £350; hanner tudalen £180; chwarter tudalen £100; wythfed tudalen £60; pob colofn cm £7
***Cyfradd hysbysebion cyhoeddi:*** £15

Ffigur nifer y darllenwyr yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg y Dinesydd, Mai 1991

---

# LYNN JONES

Buddsoddiadau
Yswiriant Bywyd
Pensiynau

Aelod o FIMBRA

30 Highfields,
Llandaf Caerdydd CF5 2QB
Ffôn 0222 562816

---

# YN EISIAU TIWTORIAID BYWIOG A BRWDFRYDIG !

HOFFECH CHI DDYSGU CYMRAEG I OEDOLION YNG NGWENT ?

■

OHERWYDD Y TWF YN Y NIFER O OEDOLION SY AM DDYSGU CYMRAEG MAE EISIAU TIWTORIAID NEWYDD ERBYN MIS MEDI.

■

DOES DIM ANGEN PROFIAD OND MAE **ANGEN BYWIOGRWYDD!**

■

DARPERIR HYFFORDDIANT. MANYLION PELLACH:

GERAINT WILSON-PRICE 0873 / 855221

---

SAIN • LLANDWROG • CAERNARFON
GWYNEDD • (0286) 831111

## CASETIAU A CHRYNO-DDISGIAU DIWEDDARAF

**Y TEBOT PIWS**
**▪ GOREUON ▪**
**Caset/CD**

**CORAU'R GOGLEDD**
**▪ NEUADD ALBERT 1994 ▪**
**Jason Howard a Bethan Dudley**
**- perfformiad byw**
**Caset/CD**

**DAVID LLOYD**
**Casgliad o'r caneuon cynnar - Caset/CD**

**LEAH OWEN**
**Caneuon newydd**
**Caset**

**NEIL ROSSER A'I BARTNERIAID**
**▪ GWYNFYD ▪**
**Caset/CD**

**STUART BURROWS**
**▪ Hen Gerddi Fy Ngwlad ▪**
**CD**